**Heini**

Mae Nain yn gallu plygu
Fel stwffwl, ar gy ngwir,
Heb sôn am sefyll ar ei phen
Am amser hir, hir hir.

Ond wrth iddi blethu'i choesa
Un diwrnod, tu ôl i'w phen,
Fe gloiodd ei chymyla
A rowliodd fel pêl fach wen

I lawr y grisiau gyntaf
Ac yna'n syth trwy'r drws,
Cyn codi gwib a saethu
Trwy ganol blodau tlws

Yr ardd a'r ardd drws nesa
Heb sôn am daflu Meic,
Y postman a'r dyn llefrith,
A'r wraig oedd ar ei beic.

Ond yna trwy drugaredd
Fe stopiodd gyda hyn
Pan laniodd yn ddirybudd
Hefo'r hwyaid yn y llyn.

A Nain sy'n ista heno
fel procar wrth y tân
yn stiff mewn cadair olwyn
â phlastar Paris glân.

Ac nid yw byth am fentro
Gwneud ioga eto, wir,
Na plethu'i choesa tu ôl i'w phen
Am amser hir, hir hir.